

# **Canlyniadau Economaidd y Brigiad o'r Pandemig COVID-19 ar Ddangosyddion Iechyd a'r Defnydd o Wasanaethau Iechyd yng Nghymru**

## **Amcanestyniad Salwch Hirdymor 2020/21 – 2022/23 Medi 2020**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant yn  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Rajendra Kadel, James Allen, Mariana Dyakova, Mark A Bellis



**GIG**  
**CYMRU**  
**NHS**  
**WALES**

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

Canolfan Gydweithredol  
Sefydliad Iechyd y Byd  
ar Fuddsoddi ar gyfer  
Iechyd a Llesiant



World Health Organization  
Collaborating Centre on  
Investment for Health  
and Well-being

# Negeseuon allweddol

## Cyfradd Diweithdra (*Tudalen 6*)

- Heb ymyriadau i wneud iawn am y sefyllfa, mae disgwyl i'r gyfradd diweithdra godi'n sydyn o **3.8% yn 2019 i tua 7% yn 2020 yn dilyn COVID-19** ac yna cynyddu'n raddol dros y cyfnod arfaethedig

## Salwch Hirdymor (LSI) (*Tudalennau 7 i 8*)

- Gyda mwy o ddiweithdra, byddai disgwyl i salwch hirdymor gynyddu'n raddol yn dilyn COVID-19, gyda chynnydd amcangyfrifedig o **tua 4% neu fwy dros dair blynedd** yn dibynnu ar y mesur salwch hirdymor
- Byddai'r **cynnydd yng nghanran yr oedolion â salwch cyfyngol hirdymor yn fwy o** gymharu ag oedolion ag unrhyw salwch hirdymor, sy'n awgrymu goblygiadau o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach

## Cyflyrau Iechyd Cronig (*Tudalennau 9 i 11*)

- Gyda'r rhagfynegiadau diweithdra presennol, **rhagwelir y bydd canran yr oedolion â chyflyrau iechyd cronig yn cynyddu** yn dilyn pandemig COVID-19 dros y cyfnod arfaethedig, gyda **mwy o gynnydd o ran problemau iechyd meddwl a phroblemau endocrin/metabolig**

# Cefndir

- Bydd pandemig y coronafeirws (COVID-19) a'r ymateb iddo o posibl yn achosi i'r **economi fyd-eang leihau 4% (mwy na \$6 triliwn)**, gan gymryd y bydd adferiad yn cychwyn yn ail hanner 2020 (*Bosley, 2020*)
- Mae adroddiad polisi ariannol diweddar yn rhagweld **y gall cyfradd diweithdra godi i 9%** yn ail chwarter 2020 yn y Deyrnas Unedig (DU) (*Banc Lloegr, 2020*)
- Mae **salwch hirdymor yn uwch ymysg y di-waith**, fel y dangosir gan yr adroddiad ar Iechyd Oedolion ym Mhrydain Fawr (*Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013*)
- Mae diweithdra'n gysylltiedig â mwy o risg o ddatblygu cyflyrau iechyd cronig (*Janke et al., 2020; Gronseth et al., 2017; Varanka-Ruuska et al., 2018*)
- Gall COVID-19 arwain at **900,000 yn fwy o bobl o oedran gweithio yn datblygu cyflyrau iechyd cronig o ganlyniad i lai o gyflogaeth** yn y DU – gall gostyngiad o un y cant mewn cyflogaeth ymhlið pobl o oedran gweithio fod yn gysylltiedig â chynnydd o oddeutu dau y cant mewn cyflyrau iechyd cronig (*Janke et al., 2020*)

## Nod

Rhagweld canlyniadau economaidd posibl COVID-19 ar salwch hirdymor, gan ystyried y berthynas rhwng newid yn y gyfradd gyflogaeth a salwch hirdymor

# Methodoleg

- Defnyddiwyd data o ffynonellau data'r Ilywodraeth ar gyfer Cymru / y DU i amcangyfrif cyfraddau diweithdra yn y dyfodol (*Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013*) a chanran yr oedolion â salwch hirdymor (*Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019*)
- Defnyddiwyd data o lenyddiaeth wyddonol ar gyfer risg o salwch hirdymor, yn cynnwys risg clefyd-benodol (*tudalen 12*)
- Defnyddiwyd cyfradd diweithdra Arolwg y Gweithlu, Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer chwarter 1 2000 i chwarter 1 2020; defnyddiwyd cyfran amcangyfrifedig Banc Lloegr ar gyfer cyfradd diweithdra ch. 2 2020
- Gwnaed y rhagfynegiad gan ddefnyddio model cyfartalog symudol integredig ymatchwelaidd (ARIMA), a ddefnyddir i gael gwell dealltwriaeth o ddata cyfres amser ac i ragfynegi gwerthoedd yn y dyfodol
- Gwnaed yr amcangyfrif o ganran oedolion â salwch hirdymor, yn cynnwys cyfraddau clefyd-benodol, drwy ystyried y newid mewn cyfraddau diweithdra amcanestynedig a thebygolrwydd risg ar gyfer salwch hirdymor
- Mae'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer cyfraddau diweithdra a salwch hirdymor, yn cynnwys cyfraddau clefyd-benodol, i'w gweld ar *dudalennau 6 i 11*

## Adolygiad gan gymheiriad a chydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i Dr Vijay GC, Cymrawd Ymchwil, Canolfan Economeg Iechyd, Prifysgol Efrog; a Mr Amritpal Rehil, Swyddog Ymchwil, Canolfan Polisi a Gwerthuso Gofal, Ysgol Economeg Llundain (LSE) am eu sylwadau a'u hargymhellion amhrisiadwy yn y broses adolygu gan gymheiriad


# Y prif ragdybiaethau

- Rhagdybiwyd yr un gyfradd diweithdra ag yr awgrymwyd gan Fanc Lloegr ar gyfer chwarter 2 2020 i wneud amcangyfrifon pellach (*Banc Lloegr, 2020*)
- Ystyriwyd oedi o ran cynnydd mewn diweithdra ac achosion o salwch hirdymor yn y model yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol (*Janke et al., 2020*)
- Rhagdybir y bydd cyfradd risg o salwch hirdymor ymhlieth y di-waith o gymharu â phobl gyflogedig yn parhau'n sefydlog yn ystod y cyfnod arfaethedig, h.y. 2020/21 - 2022/23

## Diffiniadau

- Mae **Salwch Hirdymor** yn cyfeirio at gyflwr na ellir ei wella ar hyn o bryd ond y gellr fel arfer ei reoli â meddyginaethau neu opsiynau triniaeth eraill
- Mae **Salwch Cyfyngol Hirdymor** yn cyfeirio at gyflwr sy'n cyfyngu ar weithgareddau unigolyn o ddydd i ddydd
- Mae **Salwch Hirdymor nad yw'n salwch cyfyngol** yn cyfeirio at gyflwr nad yw'n cyfyngu ar weithgareddau unioglyn o ddydd i ddydd

# Cyfraddau diweithdra amcanestynedig yng Nghymru yn dilyn COVID-19



Amcanestyniad Canlyniadau Economaidd Pandemig COVID-19 ar Salwch Hirdymor i Gymru  
2020/21 – 2022/23

## Canran amcanestynedig o oedolion ag unrhyw salwch hirdymor



\* Echelin Y wedi'i chwtogi

## Canran amcanestynedig o oedolion â 2 salwch hirdymor neu fwy



\* Echelin Y wedi'i chwtogi


## Canran amcanestynedig o oedolion sydd wedi'u cyfyngu o gwbl gan salwch hirdymor



\* Echelin Y wedi'i chwtogi


Amcanestyniad Canlyniadau Economaidd Pandemig COVID-19 ar Salwch Hirdymor i Gymru  
2020/21 – 2022/23

## Canran amcanestynedig o oedolion sydd wedi'u cyfyngu'n sylwedol gan salwch hirdymor




\* Echelin Y wedi'i chwtogi

## Canran amcanestynedig o oedolion â phroblemau cyhyrysgerbydol




\* Echelin Y wedi'i chwtogi

## Canran amcanestynedig o oedolion â phroblemau'r glon a chylchedol




\* Echelin Y wedi'i chwtogi

## Canran amcanestynedig o oedolion â phroblemau anadlol




\* Echelin Y wedi'i chwtogi

## Canran amcanestynedig o oedolion â phroblemau endocrin a metabolig



\* Echelin Y wedi'i chwtogi

## Canran amcanestynedig o oedolion â phroblemau iechyd meddwl



# Ffynonellau data

- Bosley, C. 2020. Global \$6 Trillion Slump May Be Optimistic, Economists Warn. Bloomberg. Ar gael: <https://www.bloomberg.com/news/articles/2020-04-27/global-6-trillion-slump-may-be-optimistic-bloomberg-economics> (Cyrchwyd 28 Mai 2020)
- Janke, K., Lee, K., Propper, C., Shields, K. a Shields, M. A. 2020. The impact of COVID-19 on chronic health in the UK [Ar-lein]. Porth Polisi VOX CEPR. Ar gael: <https://voxeu.org/article/impact-covid-19-chronic-health-uk> (Cyrchwyd 28 Mai 2020)
- Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr. 2020. Adroddiad Polisi Ariannol [Ar-lein]. Banc Lloegr. Ar gael: <https://www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/monetary-policy-report/2020/may/monetary-policy-report-may-2020.pdf> (Cyrchwyd 28 Mai 2020)
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2020. LFS: ILO unemployment rate: Wales: All: %: SA [Ar-lein]. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael: <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/unemployment/timeseries/ycnm/lms> (Cyrchwyd 28 Mai 2020)
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2015. Iechyd Oedolion ym Mhrydain Fawr, 2013 [Ar-lein]. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/compendium/opinionsandlifestylesurvey/2015-03-19/adulthealthingreatbritain2013> (Cyrchwyd 28 Mai 2020)
- Herbig, B., Dragano, N. ac Angerer, P., 2013. Health in the Long-Term Unemployed. Deutsches Aerzteblatt. doi:10.3238/arztebl.2013.0413
- Grønseth, R., Erdal, M., Tan, W., Obaseki, D., Amaral, A., Gislason, T., Juvekar, S., Koul, P., Studnicka, M., Salvi, S., Burney, P., Buist, A., Vollmer, W. a Johannessen, A., 2017. Unemployment in chronic airflow obstruction around the world: results from the BOLD study. European Respiratory Journal, 50(3), p.1700499. doi: 10.1183/13993003.00499-2017
- Varanka-Ruuska, T., Rautio, N., Lehtiniemi, H., Miettunen, J., Keinänen-Kiukaanniemi, S., Sebert, S. ac Ala-Mursula, L., 2017. The association of unemployment with glucose metabolism: a systematic review and meta-analysis. International Journal of Public Health, 63(4), pp.435-446. doi: 10.1007/s00038-017-1040-z
- Backhans, M. a Hemmingsson, T., 2011. Unemployment and mental health—who is (not) affected?. European Journal of Public Health, 22(3), pp.429-433. doi: 10.1093/eurpub/ckr059
- van der Zee-Neuen, A., Putrik, P., Ramiro, S., Keszei, A., de Bie, R., Chorus, A. a Boonen, A., 2017. Work outcome in persons with musculoskeletal diseases: comparison with other chronic diseases & the role of musculoskeletal diseases in multimorbidity. BMC Musculoskeletal Disorders, 18(1). doi: 10.1186/s12891-016-1365-4

Datblygwyd yr adroddiad modelu economeg iechyd hwn gan  
Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC) yn Iechyd  
Cyhoeddus Cymru

### Manylion cyswllt

Cyfarwyddwr Canolfan Gydweithredol WHO: Yr Athro Mark A Bellis [Mark.Bellis@wales.nhs.uk](mailto:Mark.Bellis@wales.nhs.uk)  
Arweinydd Economeg Iechyd y Cyhoedd: Rajendra Kadel [Rajendra.Kadel@wales.nhs.uk](mailto:Rajendra.Kadel@wales.nhs.uk)

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Iechyd a Llesiant  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Llawr 5, 2 Capital Quarter  
Stryd Tyndall, Caerdydd  
CF10 4BZ

[www.publichealthwales.org](http://www.publichealthwales.org)



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

Canolfan Gydweithredol  
Sefydliad Iechyd y Byd  
ar Fuddsoddi ar gyfer  
Iechyd a Llesiant



World Health Organization  
Collaborating Centre on  
Investment for Health  
and Well-being